



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar
Ysgol Prospects**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg.)

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/07/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Prospects yn ysgol arbennig annibynnol i blant ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r ysgol yn darparu addysg i bobl ifanc sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni, ynghyd â chynnig lleoliadau dydd.

Mae gan yr ysgol 'gontinwmm o ddarpariaeth'. Caiff disgyblion eu hasesu adeg mynediad a'u gosod yn y gwahanol leoliadau yn ôl eu hanghenion unigol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys addysg gartref yn y cartrefi plant, gyda chefnogaeth yr athrawon, darpariaeth anogaeth ac amserlen lawn o weithgareddau addysgol yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.

Ar hyn o bryd, mae 11 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Daw'r rhain yn bennaf o awdurdodau yn Lloegr, gydag ychydig ddisgyblion o awdurdodau Cymru. Mae gan bron pob un o'r disgyblion leoliadau preswyl 52 wythnos ac, ar hyn o bryd, mae un disgybl dydd. Mae statws 'plant sy'n derbyn gofal' gan bob un o'r disgyblion ac mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan saith disgybl.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r perchenogion wedi newid a phenodwyd pennaeth newydd.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

- Mae'r perchenogion yn rhoi lefelau da o gymorth a her i'r ysgol.
- Mae gan yr ysgol ffocws gwell ar lythrennedd a rhifedd.
- Mae staff wedi elwa o hyfforddiant diweddar mewn meysydd pwysig fel datblygu'r cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Mae adnoddau gwell i ategu dysgu ac addysgu.
- Gall disgyblion ennill ystod briodol o achrediadau.

Meysydd i'w datblygu

- Nid yw'r strategaethau gwell ar draws addysg a gofal ar gyfer rheoli ymddygiad yn cael effaith ddigon da.
- Mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o fentrau defnyddiol i wella presenoldeb. Fodd bynnag, mae presenoldeb gwael yn parhau'n broblem.
- Ar adegau, mae disgyblion yn dewis gadael yr ystafelloedd dosbarth er mwyn gweithio mewn amgylchedd digynnwrf. Nid yw'r achlysuron hyn yn cael eu cofnodi'n ddigon da mewn cofnod canolog. O ganlyniad, nid yw staff yn dadansoddi patrymau ymddygiad yn ddigon manwl.

Argymhellion

- A1. Gweithredu strategaethau effeithiol yn gyson i wella ymddygiad pobl ifanc
- A2. Gwella presenoldeb pobl ifanc
- A3. Cadw cofnodion gofalus o amser disgyblion allan o ystafelloedd dosbarth

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Argymhelliad 1: Sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan yr ysgol gofrestr derbyn a phresenoldeb erbyn hyn. Mae gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer cofnodi absenoldebau a dadansoddi tueddiadau. Mae'r cofnodion hyn yn dangos ychydig o welliant ym mhresenoldeb disgyblion. Er gwaethaf hyn, mae presenoldeb yn parhau'n broblem yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion ysgrifenedig o gosbau. Mae'n rhoi adroddiadau dyddiol i'r cwmni o gosbau a data arall, fel presenoldeb. Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio'r data hwn i lywio gwelliannau.

Argymhelliad 2: Cydweithio'n agos â staff gofal i wella presenoldeb disgyblion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno dull mwy trylwyr o wella presenoldeb disgyblion. Mae hyn yn cynnwys gofyniad bod staff gofal yn dyfalbarhau'n fwy wrth ddiuno disgyblion ar gyfer mynd i'r ysgol. Mae cynlluniau cymhelliant ar waith, fel gwobrau ariannol a theithiau, i annog disgyblion i wella'u presenoldeb. Pan fydd problem, mae staff addysgu yn ymweld â chartrefi gofal gan fynd â gwaith i ddisgyblion ei gwblhau.

Mae'r ysgol yn rhoi pecynnau cwricwlwm unigol i'r disgyblion, sydd wedi'u llunio i ailennyn diddordeb ac i gymell. Fodd bynnag, mae presenoldeb gwael yn parhau'n broblem i'r ysgol.

Argymhelliad 3: Gwella'r gwaith o gydlynw medrau ar draws y cwricwlwm

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi penodi cydlynwyr medrau ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae'r cydlynwyr yn gweithio'n dda gyda staff i sicrhau bod cynlluniau tymor canol yn cynnwys ffocws llythrennedd a rhifedd priodol ar gyfer disgyblion unigol. Mae'r cynlluniau'n gynhwysfawr ac yn cynnwys amcanion dysgu, strategaethau ac adnoddau clir. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn ystyried arddull dysgu a chryfderau pob disgybl. Mae arfarniadau wythnosol o'u gweithredu yn ddiagnostig ac yn galluogi athrawon i gynllunio gwaith pellach ar sail cynnydd disgyblion.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno cynllun llythrennedd cyhoeddedig, sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd.

Argymhelliad 4: Sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol yr holl ddisgyblion yn cael eu bodloni'n llwyddiannus

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi penodi cydlynnydd anghenion addysgol arbennig ac wedi datblygu asesiad gwaelodlin cychwynnol ar gyfer pob disgybl. Mae'r holl ddisgyblion sy'n ymuno â'r ysgol bellach yn cael asesiadau mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth. Mae staff yn defnyddio'r canlyniadau'n dda i lywio cynlluniau dysgu unigol (CDUau) a chynllunio gwersi. O ganlyniad, mae staff yn cynllunio ymyriadau ffocysedig addas i ddisgyblion. Mae rhaglen briodol o hyfforddiant staff ar anghenion dysgu ychwanegol wedi cychwyn. Mae'r rhaglen yn cynnwys hyfforddiant penodol ar anawsterau ar y sbectrwm awtistig, anhwylder gorfywiogrwydd a diffyg sylw a dyslecsia.

Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Gwybodaeth am yr ysgol

Ysgol	Ysgol Prospects
Rhif yr ysgol	
Diben yr ymweliad	Arolygiad monitro blynyddol
Dyddiad yr ymweliad	19/05/2016
Perchennog	Keys Group
Staff	1 Pennaeth 5 Athro 1 Tiwtor 5 Cynorthwydd Cymorth Dysgu 1 Swyddog gweinyddol rhan-amser
Nifer y disgyblion	11
Darpariaeth	Darpariaeth ddydd yn gysylltiedig â'r Cartref Plant
Y math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer	Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol
Arolygiad Adran 163 diwethaf	01/02/2012
Arolygiad monitro blynyddol diwethaf	01/06/2015
Arolygiad diwethaf gan AGGCC	17/08/2015

Gwybodaeth am y tîm

Mrs Sw Roberts	Arolygydd Cofnodol
Mrs Claire Yardley	Arolygydd Tîm